# Adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar weithgareddau'r cynrychiolwyr o Gymru ar Bwyllgor Rhanbarthau'r UE

Ionawr 2016

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

WLGA • CLILC

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

I gael gwybodaeth am ymgysylltiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru â Phwyllgor y Rhanbarthau, cysylltwch â:


**Gregg Jones**
**Pennaeth Swyddfa'r UE**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

E-bost: **Gregg.jones@cynulliad.cymru**
Ffôn: **0032 2 226 6692**
Ffôn: **0032 466 315750**


I gael gwybodaeth am ymgysylltiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) â Phwyllgor y Rhanbarthau, cysylltwch â:


**Lucy Sweet**
**Swyddog yr UE**
**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

E-bost: **Lucy.sweet@wlga.gov.uk**
Ffôn: **020 3328 0963 (o'r DU)**
Ffôn: **(0)2 506 44 88 (o Wlad Belg)**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Cynnwys


Rhagair ..... 1

Cyflwyniad ..... 2

01. Adran Ffeithiol ..... 3

01.1. Mandadau Pwyllgor y Rhanbarthau ..... 3

01.2. Dirprwyaethau'r DU a Chymru i Bwyllgor y Rhanbarthau ..... 4

01.3. Grwpiau gwleidyddol ..... 5

01.4. Busnes ffurfiol Pwyllgor y Rhanbarthau ..... 5

01.5. Rapporteuriaethau ..... 6

01.6. Rôl Tŷ Cymru ..... 7

02. Ein gwaith ym Mrwsel ac yng Nghymru ..... 8

02.1. Gweithio ar faterion sy'n bwysig i Gymru ..... 8

02.2. Rapporteuriaethau: Hanes cryf ..... 8

02.3. Dylanwadu a chasglu tystiolaeth ym Mrwsel a Chymru ..... 9

02.4. Effaith ar bolisi a gwneud cyfreithiau yn yr UE ..... 10

02.5. Effaith y gwaith hwn yng Nghymru ..... 11

02.6. ASEau o Gymru ..... 12

02.7. Y Defnydd o'r Gymraeg ym Mrwsel ..... 12

02.8. Argyfwng Wcrain ..... 13

02.9. Rhwydweithio i ddylanwadu a llywio ..... 13

02.10. Ugeinfed pen-blwydd Pwyllgor y Rhanbarthau ..... 14

02.11. Siarad mewn cynadleddau ..... 14

03. Argymhellion ..... 16

03.1. Argymhelliad 1: ..... 16

03.2. Argymhelliad 2: ..... 16

03.3. Argymhelliad 3: ..... 17

03.4. Argymhelliad 4: ..... 17

03.5. Argymhelliad 5: ..... 17

# Rhagair

Ym mis Mawrth 2014, pan gyhoeddwyd yr adroddiad gan Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ymchwiliad i rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE, gwnaed yr argymhelliad y dylai Aelodau'r Cynulliad ar Bwyllgor y Rhanbarthau, sef Sefydliad yr UE ar gyfer Cynrychiolwyr Rhanbarthol a Lleol, adrodd yn ôl i'r Cynulliad o dro i dro ar eu gwaith ar y corff hwn[1].

Ar adeg dyngedfennol i Gymru yn Ewrop, gyda refferendwm y DU ar aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd ar y gorwel, mae'r *pedwar* Aelod o Gymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau (o'r Cynulliad Cenedlaethol *ac* o Lywodraeth Leol Cymru) yn siarad ag un llais cryf ym Mrwsel ar faterion sy'n effeithio ar Gymru, ac rydym wedi ymrwymo i gynhyrchu'r adroddiadau hyn i'r Cynulliad ar y cyd. Hwn yw'r adroddiad cyntaf o'i fath, ond bydd y broses hon yn parhau yn ystod y Pumed Cynulliad.

Mae aelodaeth o'r UE yn hanfodol bwysig i Gymru; mae mynediad at y farchnad sengl yn cynnal swyddi yng Nghymru, caiff deddfwriaeth yr UE mewn meysydd fel cyflogaeth a'r amgylchedd effaith gadarnhaol ar ansawdd bywydau yng Nghymru ac, yn y pendraw, mae Cymru yn fuddiolwr net o aelodaeth yr UE; cawn fwy o arian *o'r* UE nag yr ydym yn ei gyfrannu *tuag at* aelodaeth ohoni.

Mae Pwyllgor y Rhanbarthau yn caniatáu ar gyfer llais i Gymru ar y materion hyn. Er ein bod yn cydnabod y cyfyngiadau sydd ar Bwyllgor y Rhanbarthau fel sefydliad, mae'n rhan bwysig o ddylanwad Cymru ym Mrwsel, ac fel y mae'r adroddiad hwn dangos - drwy waith agos ag ASEau Cymru, partneriaid Tŷ Cymru, a sefydliadau eraill ym Mrwsel y cyfeirir atynt yn yr adroddiad, mae Aelodau Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau yn gwneud y gorau o'r dylanwad a'r budd yn ein gwaith ar Bwyllgor y Rhanbarthau.

## Aelodau o Gymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau



**Mick Antoniw AC**



**Rhodri Glyn Thomas AC**



**Y Cyngh Bob Bright (Casnewydd)**



**Y Cyngh Ronnie Hughes (Conwy)**

[1]Gweler Argymhelliad 9 o'r adroddiad - ar gael yn **http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=6722**

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn amserol, gan y bydd newidiadau i ddirprwyaeth Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau yn 2016, gan na fydd y ddau aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn aros i gael eu hailethol fel Aelodau. Daeth mandad Mick Antoniw AC i ben ym mis Rhagfyr 2015 a bydd Rhodri Glyn Thomas AC yn rhoi'r gorau iddi ddiwedd mis Mawrth pan fydd y cyfnod cyn yr etholiad yn dechrau. Joyce Watson AC sydd wedi cael ei henwebu i gymryd lle Mick Antoniw ac mae hi, ac olynydd Rhodri Glyn, yn debygol o ymgymryd â'r rôl hon yn y cyfnod ar ôl yr etholiad, o ystyried yr amser a gymerir i gymeradwyo enwebiadau yn ffurfiol.

Mae'r cydweithio gan ddirprwyaeth Cymru wedi bod yn amhrisiadwy ac rydym yn sicr y bydd hyn yn parhau yn dilyn yr etholiad.

Swyddfa UE y Cynulliad a Swyddfa Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ym Mrwsel sy'n darparu cymorth ysgrifenyddol i ddirprwyaeth Cymru. Mae'r swyddfeydd hyn wedi eu cydleoli yn Nhŷ Cymru ynghyd â Llywodraeth Cymru ac Addysg Uwch Cymru Brwsel, sydd hefyd yn cefnogi gwaith Pwyllgor y Rhanbarthau ac yn cymryd rhan ynddo.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gwaith y mae Aelodau Cymru o Bwyllgor y Rhanbarthau wedi'i wneud hyd yn hyn yng Nghymru a Brwsel mewn tair prif adran:

01. **Adran 1 - Adran Ffeithiol** sy'n egluro trefniadau a phrosesau Pwyllgor y Rhanbarthau.
02. **Adran 2 - Ein gwaith ym Mrwsel ac yng Nghymru**, sy'n esbonio'r gweithgareddau a wneir gan Aelodau Cymru o Bwyllgor y Rhanbarthau ar lefel yr UE a gartref yng Nghymru.
03. **Adran 3 - Argymhellion** i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru ynghylch ymgysylltiad presennol Cymru â'r UE ac ar gyfer y dyfodol.



**Llun gan Bwyllgor y Rhanbarthau**

# 01.Adran Ffeithiol

## 01.1. Mandadau Pwyllgor y Rhanbarthau

Mae Pwyllgor y Rhanbarthau yn gweithredu ar sail mandadau pum mlynedd.

Dechreuodd mandad newydd eleni a bydd yn rhedeg tan ddiwedd Ionawr 2020.

Mae Pwyllgor y Rhanbarthau yn cynnwys 350 o aelodau (a 350 o eilyddion) - yn llywyddion rhanbarthol, meiri a chynrychiolwyr etholedig o ranbarthau a dinasoedd - o'r 28 o Aelod-wladwriaethau'r UE. Mae dirprwyaethau cenedlaethol yn adlewyrchu cydbwysedd cyffredinol gwleidyddol, daearyddol a rhanbarthol / lleol pob Aelod-wladwriaeth[2].

Mae pob Aelod-wladwriaeth yn defnyddio ei gweithdrefnau mewnol ei hun i enwebu aelodau, yn unol â rheolau gweithdrefnau Pwyllgor y Rhanbarthau[3], a chaiff y dirprwyaethau cenedlaethol hyn eu cymeradwyo'n ffurfiol gan Gyngor yr Undeb Ewropeaidd ('Cyngor'), sy'n nodi dechrau mandad yr aelod(au) dan sylw.

Mae rheol 2 o reolau gweithdrefnau Pwyllgor y Rhanbarthau yn amlinellu sail y mandad ar gyfer aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau, gan ei gwneud yn glir y bydd yr aelodau, er bod cael mandad etholiadol a / neu fod yn wleidyddol atebol i gynulliad etholedig, yn 'gwbl annibynnol' yn eu rôl fel aelodau o Bwyllgor y Rhanbarthau:



**Llun gan Bwyllgor y Rhanbarthau**

> ...They shall hold a regional or local authority electoral mandate or shall be politically accountable to an elected assembly. They may not be bound by any mandatory instructions and shall be completely independent in the performance of their duties, in the general interest of the Union.

Mae rheol 3.2 o reolau gweithdrefnau Pwyllgor y Rhanbarthau yn nodi pryd y bydd y mandad wedi dod i ben:

> ...The term of office of a member or alternate shall be terminated by resignation, the end of the electoral mandate on the basis of which he/she was appointed, or death.

Pan fydd hyn yn digwydd yn ystod mandad 5-mlynedd Pwyllgor y Rhanbarthau, mae'n rhaid i aelod newydd neu eilydd gael ei enwebu gan yr Aelod-wladwriaeth a chael ei gymeradwyo gan y Cyngor, cyn cael ei benodi'n swyddogol.

---

[2] Gweler: **http://cor.europa.eu/en/about/nationaldelegations/Pages/national-delegations.aspx**
[3] Gweler **http://cor.europa.eu/en/documentation/Pages/rules-of-procedure.aspx**

Yn achos etholiadau'r DU (deddfwrfeydd datganoledig ac awdurdodau lleol), pan fydd swyddogaethau fel Aelodau Cynulliad a Chynghorwyr yn dod i ben yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad, mae'r Cyngor wedi egluro os bydd aelod o Bwyllgor y Rhanbarthau (neu eilydd) yn sefyll i gael ei ailethol, ac yna'n cael ei ailethol o dan yr un mandad â'i penodwyd i Bwyllgor y Rhanbarthau, ystyrir hyn yn adnewyddu mandad, ac nid oes angen i'r aelod fynd drwy broses ailbenodi.

Aeth Christine Chapman AC a Rhodri Glyn Thomas AC drwy'r broses honno yn ystod etholiad y Cynulliad yn 2011. Daeth eu gweithgareddau ar Bwyllgor y Rhanbarthau i ben am hanner nos ar 31 Mawrth 2011 (pan ddaeth protocol cyn etholiad i rym), cyn ailafael yn eu dyletswyddau ar Bwyllgor y Rhanbarthau ar ôl cael eu hailethol yn Aelodau Cynulliad, ac yn dilyn eglurhad ar y cwestiwn o adnewyddu mandad.

## 01.2. Dirprwyaethau'r DU a Chymru i Bwyllgor y Rhanbarthau

Mae dirprwyaeth i Bwyllgor y Rhanbarthau yn cynnwys 24 aelod llawn a 24 eilydd. Caiff yr ysgrifenyddiaeth ar gyfer hyn ei ddarparu gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol (o Lundain a Brwsel)[4].

Yn y DU, mae'r Prif Weinidog yn cynnig dirprwyaeth genedlaethol yn ffurfiol ar gyfer y DU (i'w chymeradwyo gan y Cyngor, fel y disgrifir uchod).

Caiff rhestr y DU ei llunio ar sail enwebiadau gan y 'cenhedloedd' perthnasol. Yng Nghymru, caiff yr enwau eu cyflwyno gan Brif Weinidog Cymru, fel sy'n digwydd hefyd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn Lloegr y Gymdeithas Llywodraeth Leol sy'n gyfrifol am gydgysylltu'r enwebiadau gan awdurdodau lleol Lloegr yn ogystal â Chynulliad Llundain.

Caiff y prosesau a ddefnyddir gan Brif Weinidogion Gweinyddiaethau Datganoledig perthnasol i ddewis yr enwebiadau ar gyfer mandad Pwyllgor y Rhanbarthau eu penderfynu gan y priod Weinyddiaethau / Deddfwrfeydd datganoledig.

Ar hyn o bryd, mae gan Gymru bedwar cynrychiolydd o ddyraniad y DU: dau aelod llawn a dau eilydd. Ers sefydlu'r Cynulliad ym 1999, mae'r pedwar lle wedi cael eu rhannu rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Caiff cynrychiolwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu dewis gan y Prif Weinidog, ac mae gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ei phrosesau mewnol ei hun ar gyfer dewis y cynrychiolwyr y mae'n eu cynnig i'r Prif Weinidog.

[4] Gweler http://cor.europa.eu/en/about/nationaldelegations/Pages/delegation.aspx?country=United%20Kingdom

Cynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau ar hyn o bryd yw:

- Mick Antoniw AC o fis Ebrill 2013 tan fis Rhagfyr 2015 oedd aelod llawn y Cynulliad - fe gymerodd yr awenau gan Christine Chapman AC ym mis Ebrill 2013 (ar ôl iddi ymddiswyddo ym mis Tachwedd 2012). Joyce Watson AC fydd yn cymryd ei le.
- Rhodri Glyn Thomas AC yw eilydd y Cynulliad (ers 2009). Bydd Rhodri Glyn yn rhoi'r gorau i Bwyllgor y Rhanbarthau ddiwedd mis Mawrth 2016, gan na fydd yn sefyll yn etholiad y Cynulliad ym mis Mai 2016
- Y Cynghorydd Bob Bright, arweinydd Casnewydd (aelod llawn ers 2009)
- Y Cynghorydd Ronnie Hughes, Dirprwy Arweinydd Cyngor Conwy (eilydd), a ddaeth yn lle'r Cynghorydd Chris Holley ym mis Ionawr 2015 yn dilyn newid mandad Pwyllgor y Rhanbarthau.

## 01.3. Grwpiau gwleidyddol

Er bod aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau yn cael eu penodi drwy ddirprwyaethau cenedlaethol (Aelod-wladwriaethau) ac y caiff y rhain eu cynrychioli ar brif gyrff sy'n gwneud penderfyniadau ym Mhwyllgor y Rhanbarthau (e.e. y swyddfa wleidyddol), caiff gwaith gwleidyddol dyddiol arferol y Pwyllgor ei drefnu drwy'r grwpiau gwleidyddol.

Mae pump grŵp ar hyn o bryd, gydag aelodau Cymru yn cael eu cynrychioli ar ddau o'r rhain (y grwpiau eraill yw: Plaid Ewropeaidd y Bobl, Grŵp y Ceidwadwyr Ewropeaidd a Diwygio, a Chynghrair y Rhyddfrydwyr a'r Democratiaid dros Ewrop):

- Cynghrair Flaengar y Sosialwyr Ewropeaidd (PES): y grŵp mwyaf. Mae Mick Antoniw, Bob Bright a Ronnie Hughes yn eistedd ar y grŵp hwn
- Cynghrair Rydd Ewrop (EFA): Mae Rhodri Glyn Thomas yn eistedd ar y grŵp hwn

## 01.4. Busnes ffurfiol Pwyllgor y Rhanbarthau

Caiff busnes ffurfiol Pwyllgor y Rhanbarthau ei drefnu drwy 'Gomisiynau' thematig (hy Pwyllgorau), sy'n cwrdd rhwng pedair a phum gwaith y flwyddyn (fel arfer ym Mhwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel, ond weithiau mae'r rhain yn gyfarfodydd allanol a gaiff eu cynnal mewn rhannau eraill o'r UE, drwy wahoddiad un o aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau). Caiff Cyfarfod Llawn, â phob un o'r 350 o aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau (neu eu heilyddion) yn bresennol, eu cynnal chwe gwaith y flwyddyn (fel arfer yn Senedd Ewrop).

Mae Mick Antoniw a Bob Bright fel yr aelodau llawn wedi'u penodi i ddau 'Gomisiwn', er mai'r arfer safonol o fewn dirprwyaeth y DU yw i'r aelod llawn ddewis un Comisiwn i eistedd arno gyda'r ail Gomisiwn yn mynd i'r ddau eilydd, sef Rhodri Glyn Thomas a Ronnie Hughes.

Mae'r aelodau o Gymru ar y Comisiynau canlynol[5]:

– Mick Antoniw: Comisiwn SEDEC[6] sy'n cynnwys materion cymdeithasol, cyflogaeth, addysg, hyfforddiant a diwylliant (o dan fandad blaenorol Pwyllgor y Rhanbarthau roedd ar y Comisiwn Polisi Economaidd a Chymdeithasol)

– Rhodri Glyn Thomas: Comisiwn ENVE[7] sy'n cynnwys yr amgylchedd, ynni a newid yn yr hinsawdd (o dan y mandad blaenorol roedd ar y Comisiwn Cyfoeth Naturiol). Mae Rhodri Glyn hefyd wedi bod yn aelod yn y mandad blaenorol o'r Comisiwn Cyllideb Ad Hoc Dros Dro

– Bob Bright: Comisiwn COTER[8] sy'n cynnwys Cronfeydd Strwythurol yr UE a Chyllideb yr UE (o dan y mandad blaenorol roedd ar y Comisiwn Addysg a Diwylliant)

– Ronnie Hughes: Comisiwn NAT[9] sy'n cynnwys amaethyddiaeth, datblygu gwledig a physgodfeydd

## 01.5. Rapporteuriaethau

Caiff busnes ffurfiol Pwyllgor y Rhanbarthau ei arwain gan 'rapporteurs' sy'n gyfrifol am baratoi adroddiadau ar goflenni sy'n cael eu trafod gan y Pwyllgor. Fel arfer, caiff yr adroddiadau hyn eu paratoi mewn proses dau gam: (i) mabwysiadu ar lefel 'Comisiwn' (ii) mabwysiadu yn y Cyfarfod Llawn.




**Llun gan Bwyllgor y Rhanbarthau**

Caiff rapporteuriaethau eu sicrhau drwy'r grwpiau gwleidyddol, ar sail pwyntiau. Y grwpiau mwyaf sydd â'r mwyaf o bwyntiau i'w dyrannu i farn. Maent yn cynrychioli rhyw fath o 'real sanctaidd' i'r aelodau, yn enwedig ar gyfer coflenni polisi a deddfwriaethol allweddol, gan mai'r rapporteur sy'n gweithredu fel arweinydd a llefarydd ar ran Pwyllgor y Rhanbarthau gyda sefydliadau eraill yr UE, yn arbennig y Comisiwn Ewropeaidd a Senedd Ewrop.

Mae hyn yn cynnwys gwahoddiadau i siarad mewn cynadleddau ym Mrwsel ac mewn mannau eraill yn yr UE, yn ystod y broses o fabwysiadu'r farn, ac wedyn.

Mae hefyd yn gyfle i gwrdd ag uwch wleidyddion a swyddogion, gan gynnwys Comisiynwyr, y Cyfarwyddwyr Cyffredinol, a ffigurau allweddol eraill yn y Comisiwn Ewropeaidd, yn ogystal ag Aelodau Senedd Ewrop.

Ceir manylion am yr rapporteuriaethau o ddirprwyaeth Cymru yn yr adran nesaf.

[5]Gweler http://cor.europa.eu/en/activities/commissions/Pages/commissions.aspx
[6]Gweler http://cor.europa.eu/en/activities/commissions/Pages/cor-commissions.aspx?comm=SEDEC
[7]Gweler http://cor.europa.eu/en/activities/commissions/Pages/cor-commissions.aspx?comm=ENVE
[8]Gweler http://cor.europa.eu/en/activities/commissions/Pages/cor-commissions.aspx?comm=COTER
[9]Gweler http://cor.europa.eu/en/activities/commissions/Pages/cor-commissions.aspx?comm=NAT

## 01.6. Rôl Tŷ Cymru

Yn ein holl waith, cawn ein cefnogi gan Swyddfeydd UE y Cynulliad a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn Nhŷ Cymru, sydd hefyd â pherthynas waith agos â chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru ac Addysg Uwch Cymru Brwsel. Rydym yn rhan o deulu ehangach Tŷ Cymru ac yn rhyngweithio â'r nifer o grwpiau o Gymru sy'n ymweld â Brwsel, ac yn defnyddio Tŷ Cymru fel eu pwynt cyswllt.

Y swyddogion ym Mrwsel sy'n sicrhau parhâd i'n gwaith, drwy eu perthynas a'u rhyngweithio ag ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Rhanbarthau a grwpiau gwleidyddol, ASEau Cymru, y Comisiwn Ewropeaidd a'r ystod eang o gynrychioliadau a rhwydweithiau'r UE ym Mrwsel. Mae hon yn rôl ragweithiol, gan gynnwys canfod cyfleoedd ar gyfer barn, cyfraniadau at fusnes ffurfiol Pwyllgor y Rhanbarthau, cyfle i siarad mewn cynadleddau ac ati. Mae hefyd yn cynnwys darparu cefnogaeth 'arbenigol' i baratoi adroddiadau Pwyllgor y Rhanbarthau. Mae Swyddogion Llywodraeth Cymru - ddwywaith yn achos gwaith Mick Antoniw AC - hefyd wedi ymgymryd â'r rôl 'arbenigwyr' ar farn Pwyllgor y Rhanbarthau.



**Y Llywydd, Y Fonesig Rosemary Butler AC, gyda'r ASEau Cymreig Jill Evans, Dr Kay Swinburne a Derek Vaughan**

# 02.Ein gwaith ym Mrwsel ac yng Nghymru

Mae'r adran hon yn cynnwys manylion yr amrywiaeth o weithgareddau rydym yn ymgymryd â hwy drwy ein gwaith ar Bwyllgor y Rhanbarthau, ar lefel yr UE (sy'n digwydd yn bennaf ym Mrwsel) a gartref yng Nghymru.

## 02.1. Gweithio ar faterion sy'n bwysig i Gymru

Mae'r aelodau o Gymru yn cyfrannu drwy eu gwaith ar Gomisiynau perthnasol Pwyllgor y Rhanbarthau (hy pwyllgorau) ac yn y Cyfarfod Llawn ar bynciau sy'n berthnasol i Gymru. Cafodd y dewis o Gomisiynau ei gynllunio i sicrhau bod y meysydd sydd fwyaf perthnasol i Gymru yn cael eu cynnwys, gyda dirprwyaeth Cymru yn cytuno i dargedu gwahanol feysydd thematig i sicrhau y gallai amrywiaeth eang o faterion gael eu cynnwys.

Mae hyn yn golygu bod y Cynghorydd Bright yn arwain ar faterion sy'n ymwneud â Chronfeydd Strwythurol a Pholisi Cydlyniant yr UE, mae Mick Antoniw AC yn arwain ar bolisi cymdeithasol, cyflogaeth ac addysg, mae Rhodri Glyn Thomas AC yn arwain ar yr amgylchedd ac ynni, a'r Cynghorydd Ronnie Hughes yn arwain ar ddatblygu gwledig a'r PAC (meysydd yr arferai Rhodri Glyn fod yn gyfrifol amdanynt).




Mae Mick a Rhodri Glyn wedi siarad yn rheolaidd yn ystod sesiynau Cyfarfod Llawn Pwyllgor y Rhanbarthau ar ran eu grwpiau gwleidyddol ar nifer o bynciau, gan gynnwys cyllid a chyllideb yr UE, agenda ddiwygio'r UE, iechyd a diogelwch, PAC / materion gwledig, cyflogaeth a'r argyfwng ffoaduriaid, gan roi safbwynt Cymreig i'r materion hyn.

## 02.2. Rapporteuriaethau: Hanes cryf

Fel y nodwyd eisoes, rapporteuriaeh yw un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ddylanwadu. Mae gan y ddirprwyaeth o Gymru record dda o ran sicrhau rapporteuriaethau mewn meysydd pwysig:

- Mick Antoniw AC:
    - *Safonau Taliadau mewn Cyflogaeth yn yr UE*: penodwyd Mawrth 2015; mabwysiadwyd yr adroddiad yn y Cyfarfod Llawn ym mis Rhagfyr 2015)
    - *Gwella Cydweithrediad mewn Gwasanaethau Cyflogaeth Gyhoeddus (PES) ar draws Ewrop* (a fabwysiadwyd yn y Cyfarfod Llawn ym mis Tachwedd 2013)

– Rhodri Glyn Thomas AC:



EUROPEAN UNION

Committee of the Regions

ENVE-VI/004

114th plenary session, 12-13-14 October 2015

OPINION

Developing the potential of Ocean Energy

THE EUROPEAN COMMITTEE OF THE REGIONS

- notes that the EU and its regions are currently at the forefront globally in developing the sector, and recognises that without sufficient action the EU risks losing its leadership;
- emphasises that development of the Ocean Energy sector is of interest to the whole of the EU, offering many investment and development opportunities, which are not restricted to coastal/island areas;
- asserts that, given the scale of investments required and a number of inter-linked barriers to be overcome to realise the potential of the Ocean Energy sector, coordinated actions between the different layers of governance in the EU and the engagement of the key stakeholders are essential;
- calls on the European Commission to develop the Ocean Energy Forum into an industrial platform to drive forward delivery of the key actions set out in the Ocean Energy Roadmap;
- recommends that strong consideration be given to developing an Atlantic Macro Region focused on developing Ocean Energy;
- recommends that appropriate and tailored strategies/technologies be developed for all the different sea-basins, harnessing existing experiences/development of advanced technologies for regions with less/different marine energy potential;
- reiterates its call for stronger political priority to be given to creating synergies between EU, Member State and sub-state (local and regional authority) budgets to support investments of key European importance, such as Ocean Energy; and calls on the EIB and European Commission to support investments in grid infrastructure and pre-commercial pilot phase projects;
- stresses the importance of simplifying administrative procedures for planning and consenting at LRA and national level; and the need to plan Ocean Energy development into the process of Maritime Spatial Planning.

EN

– *Datblygu Potensial Ynni'r Môr:* penodwyd ym mis Mawrth 2015; mabwysiadwyd yr adroddiad yn y Cyfarfod Llawn ym mis Hydref 2015

– *Creu synergeddau effeithiol rhwng cyllidebau'r UE, cyllidebau cenedlaethol a chyllidebau is-genedlaethol* (mabwysiadwyd yn y Cyfarfod Llawn ym mis Ionawr 2013)

– *Synergeddau mewn cyllid cyhoeddus a phreifat i gefnogi buddsoddiadau lleol / rhanbarthol gan gynnwys rôl Banc Buddsoddi Ewrop* (mewn ymateb i wahoddiad gan Lywyddiaeth Iwerddon o'r UE) (mabwysiadwyd yn y Cyfarfod Llawn ym mis Ebrill 2013)

– *Diwygio'r rheolau Cymorth Gwladwriaethol i Bysgodfeydd a Dyframaethu* (mabwysiadwyd yn y Cyfarfod Llawn ym mis Tachwedd 2013)

– Y Cynghorydd Bob Bright:

– Strategaeth Seiberddiogelwch (mabwysiadwyd yn 2013)

– Ysgogiad newydd ar gyfer cydweithrediad Ewropeaidd mewn Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol i gefnogi Strategaeth Ewrop 2020 (mabwysiadwyd yn 2010)

*Noder: gan mai yn ddiweddar y dechreuodd y Cynghorydd Ronnie Hughes ar ei fandad cyntaf, nid yw wedi cael ei benodi i rapporteuriaeth eto.*

## 02.3. Dylanwadu a chasglu tystiolaeth ym Mrwsel a Chymru

Wrth baratoi'r adroddiadau hyn, mae aelodau Cymru wedi cynnal sesiynau casglu tystiolaeth ar lefel yr UE (drwy gyfarfodydd ym Mrwsel / Lwcsembwrg a rhannau eraill o UE, ymgynghori â rhanddeiliaid, ymchwil desg) ac ar lefel Cymru, gan gynnwys trafod gyda rhanddeiliaid o Gymru, Pwyllgorau ac Aelodau'r Cynulliad, a Gweinidogion perthnasol Llywodraeth Cymru.

Ni ddylai pwysigrwydd y cam hwn o gaslgu tystiolaeth gael ei gymryd yn ysgafn, ac yn arbennig yr amseriad ar gyfer paratoi'r adroddiadau. Mae rhai enghreifftiau isod:



**Llun gan Bwyllgor y Rhanbarthau. Rhodri Glyn Thomas AC gyda Lucinda Creighton TD, Gweinidog Ewrop yr Iwerddon (2013)**

– Cyfarfu Rhodri Glyn â Chomisiynydd Cyllideb yr UE wrth baratoi ei farn synergeddau cyllideb yn ystod yr wythnosau yn arwain at gyfarfod allweddol y Cyngor

Ewropeaidd ar fframwaith ariannol amlflwydd 2014-2020.

– Cyfarfu Rhodri Glyn â Chomisiynydd yr Amgylchedd a Materion Morol yr UE yng nghynhadledd Ocean Energy Europe yn Nulyn ym mis Hydref 2015, a pharatowyd ei adroddiad yn ystod y cyfnod hollbwysig yn y gwaith o baratoi'r Map Ynni Morol o dan arweiniad Cyfarwyddwr Cyffredinol Materion Morol (o dan Lowri Evans - sydd wedi cymryd drosodd fel Cyfarwyddwr Cyffredinol Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Twf ers mis Medi 2015)



**Llun gan Bwyllgor y Rhanbarthau**

– Cyfarfu Mick Antoniw â phrif rapporteur Senedd Ewrop ar gyfer ei adroddiad ar Wasanaethau Cyflogaeth Gyhoeddus, a oedd yn paratoi ei adroddiad ar yr un pryd ag y mabwysiadwyd un Mick, ac roedd wedi gallu sicrhau nifer o newidiadau i'r adroddiad terfynol a fabwysiadwyd gan y Senedd

– Cafodd Rhodri Glyn wahoddiad i Bwyllgor Monitro Cymru gyfan ar gyfer y Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol i gyflwyno manylion ei waith ar Fanc Buddsoddi Ewrop a phartneriaethau cyhoeddus / preifat ym mis Mehefin 2013.

Mae Rhodri Glyn wedi ymddangos gerbron pedwar o Bwyllgorau'r Cynulliad hefyd:

– *Y Pwyllgor Cyllid (Ionawr 2012):* i drafod ei adroddiadau ar synergeddau rhwng yr UE, a chyllidebau cenedlaethol ac is-genedlaethol, a synergeddau mewn cyllid cyhoeddus / preifat

– *Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (Medi 2013): tystiolaeth i'r ymchwiliad i rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE.*

– *Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd (Gorffennaf 2014):* fel rhan o'r gwaith o gasglu tystiolaeth ar gyfer ei adroddiad ar Gymorth Gwladwriaethol i Bysgodfeydd a Dyframaethu

– *Y Pwyllgor Menter a Busnes (Medi 2015):* tystiolaeth i'r ymchwiliad i'r Economi Morol

## 02.4. Effaith ar bolisi a gwneud cyfreithiau yn yr UE

Mae tystiolaeth glir bod y gwaith wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar adroddiadau Senedd Ewrop:

– Roedd adroddiad Rhodri Glyn ar synergeddau rhwng cyllidebau'r UE, cyllidebau cenedlaethol a chyllidebau is-genedlaethol yn galw ar y Comisiwn Ewropeaidd i gynnwys pennod ar gyllid cyhoeddus 'lleol / rhanbarthol' bob blwyddyn (roedd wedi ei chynnwys am y tro cyntaf yn 2012). Cafodd hyn ei godi mewn dau o benderfyniadau Senedd Ewrop a fabwysiadwyd yn 2013[10].

[10]Adroddiad Mazzoni, a fabwysiadwyd ar 8 Hydref, 2013: Penderfyniad ar effeithiau'r cyfyngiadau cyllidebol ar awdurdodau rhanbarthol a lleol ynghylch gwariant Cronfeydd Strwythurol yr UE yn yr Aelod-wladwriaethau (gweler paragraff 11)

– Arweiniodd gwaith PES Mick ar ei adroddiad ar Arolwg o Wariant Cyhoeddus at bedwar gwelliant i adroddiad Senedd Ewrop ar y ddeddfwriaeth ddrafft hon, gan adlewyrchu pwyntiau allweddol yn safbwynt Pwyllgor y Rhanbarthau, gan gynnwys ychwanegu cyfeiriadau at wasanaethau cyflogaeth is-genedlaethol.

Yn yr un modd, ceir tystiolaeth o effaith ar waith y Comisiwn Ewropeaidd:

– Yn 2014 cyhoeddodd Gyfarwyddiaeth Gyffredinol ECFIN bapur economaidd[11] yn edrych ar y cwestiwn o gyfranogiad llywodraethau is-genedlaethol mewn prosesau cyllidebol blynyddol, yn unol ag un o'r argymhellion allweddol yn adroddiad Rhodri Glyn ar synergeddau cyllidebol.

– Ym mis Medi 2015, lansiodd Banc Buddsoddi Ewrop becyn cyllid newydd gyda'r nod o gefnogi prosiectau risg uwch yn y sector ynni adnewyddadwy, gan gynnwys ynni môr, un o'r materion y trafododd Rhodri Glyn gyda'r Banc ym mis Mai 2015 wrth gasglu tystiolaeth.

– Hefyd ym mis Medi 2015 cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd Gynllun Strategaeth Ynni Technoleg (SET) newydd, a oedd yn cynnwys cyfeiriadau at yr angen am gydweithredu rhanbarthol cryfach yn yr Iwerydd ar gyfer datblygu ynni môr - un o themâu canolog adroddiad Rhodri (yn ymwneud â'r cysyniad o Ranbarth Macro Iwerydd)

Drwy farn Mick Antoniw ar Safonau mewn Taliadau, ei nod, gyda chefnogaeth y Grŵp PES, oedd gwthio'r cwestiwn o 'gyflog byw' - un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru - yn uwch ar yr agenda wleidyddol ym Mrwsel ac ysgogi trafodaeth ehangach ar y mater hwn yn y Comisiwn Ewropeaidd a Senedd Ewrop.

## 02.5. Effaith y gwaith hwn yng Nghymru

Ar sawl achlysur, mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi canmol gwaith Rhodri Glyn â Banc Buddsoddi Ewrop, gan gydnabod yr effaith a gafodd ar eu dull o ymgysylltu â Banc Buddsoddi Ewrop. Ers adroddiad Rhodri Glyn ar Fanc Buddsoddi Ewrop a synergedd mewn cyllid cyhoeddus / preifat, mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi ymweld â phencadlys Banc Buddsoddi Ewrop ar sawl achlysur, ac ym mis Tachwedd, cynhaliwyd digwyddiad cyntaf canolfan newydd Banc Buddsoddi Ewrop yng Nghymru, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru.

Trefnodd Llywodraeth Cymru ddwy gynhadledd ar gyflogaeth ieuenctid, un yng Nghymru ym mis Tachwedd 2014, a digwyddiad dilynol ym Mrwsel ym mis Mehefin 2015. Gweithiodd Mick yn agos gyda Derek Vaughan ASE ac â Llywodraeth Cymru wrth baratoi'r gynhadledd hon, gan ddefnyddio cysylltiadau a sefydlwyd gyda gwledydd eraill yr UE trwy ei adroddiad PES i nodi enghreifftiau o arfer gorau ar gyfer y cynadleddau hyn.

---

Adroddiad Pallone, a fabwysiadwyd ar 16 Ionawr 2013: Penderfyniad ar Gyllid Cyhoeddus yn EMU - 2011 a 2012 (gweler paragraff 12)
[11]Papurau Economaidd 517 Mehefin 2014: Trefniadau cydgysylltu ar draws is-sectorau llywodraeth yn Aelod-wladwriaethau'r UE, Georges Tournemire, Cyfarwyddiaeth Gyffredinol ECFIN

Yn wreiddiol, roedd Mick i fod i siarad yng nghynhadledd mis Tachwedd 2014 - fodd bynnag, nid oedd hynny'n bosibl oherwydd busnes y Cynulliad, a chamodd Rhodri Glyn i'r adwy. Roedd hyn eto yn enghraifft arall o'r berthynas waith dda rhwng aelodau Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau.



**Aelodau o'r Pwyllgor Menter a Busnes ymweld â phencadlys Banc Buddsoddi Ewrop yn Lwcsembwrg**

## 02.6. ASEau o Gymru

Mae gan y ddirprwyaeth o Gymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau berthynas waith ardderchog ag Aelodau Cymru o Senedd Ewrop. Maent yn cwrdd ym Mrwsel yn rheolaidd, ac mewn digwyddiadau'r UE yn ôl yng Nghymru, ac mae Aelodau Cymru o Senedd Ewrop wedi cael gwahoddiad i gyfrannu eu barn wrth baratoi safbwyntiau drafft Pwyllgor y Rhanbarthau. Mae ASEau Cymru hefyd wedi bod yn gyfrwng defnyddiol i Aelodau eraill yn Senedd Ewrop trwy gysylltiadau yn eu grwpiau gwleidyddol.

## 02.7. Y Defnydd o'r Gymraeg ym Mrwsel

Cyflwynodd Rhodri Glyn pob un o'r pedwar o'i adroddiadau yn y Gymraeg yn y Cyfarfodydd Llawn, gan wneud defnydd o gytundeb a lofnodwyd rhwng Llywodraeth y DU a Phwyllgor y Rhanbarthau ym mis Tachwedd 2008 yn galluogi'r Gymraeg i gael ei defnyddio'n swyddogol. Llywodraeth Cymru sy'n talu'r costau cyfieithu sy'n gysylltiedig â hyn.

## 02.8. Argyfwng Wcrain

Mae Mick Antoniw wedi chwarae rhan ganolog yn ymgysylltiad gwleidyddol Pwyllgor y Rhanbarthau yn argyfwng Wcrain. Ymwelodd ag Wcráin fel rhan o ddirprwyaeth lefel uchel o Bwyllgor y Rhanbarthau yn anterth y protestiadau yn Kiev ym mis Ionawr 2014, gydag ymweliadau pellach yn 2014 a 2015. Hefyd yn 2015, fel rhan o fenter a noddir gan y Sefydliad ar gyfer Diogelwch a Chydweithrediad yn Ewrop, ac mewn cydweithrediad â'r NUM ac Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo, cyflwynodd Mick ddarlithoedd i Brifysgolion a busnesau Dwyrain Wcrain yn arddangos enghreifftiau o Gymru o brosiectau adfywio cyn-feysydd glo.



**Llun gan Matthieu Hornung**

Mick yw'r llefarydd swyddogol ar argyfwng Wcrain o fewn y Grŵp PES, a bydd yn siarad yn rheolaidd mewn dadleuon  Cyfarfod Llawn Pwyllgor y Rhanbarthau ar yr argyfwng hwn, gan gynnwys yn fwyaf diweddar (Hydref 2015) mewn ymateb i Uchel Gynrychiolydd yr UE, Mogherini. Cafodd hefyd ei benodi gan y Grŵp PES yn un o'u cynrychiolwyr ar CORLEAP - Partneriaeth Dwyrain CORS, sy'n gweithio gyda chynrychiolwyr lleol a rhanbarthol o wledydd y bloc dwyreiniol sydd ar y ffîn â'r UE.

Cyfarfu Mick â Dirprwy Brif Weinidog Llywodraeth Wcrain ym mis Ebrill 2014, gan gynnal y cyfarfod hwn mewn Wcreineg, a siarad yn y ddadl ddilynol yn y Cyfarfod Llawn hefyd.

## 02.9. Rhwydweithio i ddylanwadu a llywio

Mae Brwsel yn ddinas rhwydweithio gyda llu o gymdeithasau a chynrychiolwyr yr UE sy'n cwmpasu ystod eang o ddiddordebau. Drwy ein gwaith, cawn gysylltiad â'r cyrff hyn, gan gynnwys cysylltiadau drwy Tŷ Cymru, ein grwpiau gwleidyddol a gweinyddiaeth pwyllgor y Rhanbarthau.

Mae hyn yn cynnwys rhwydweithiau fel Eurocities, CPMR, Ocean Energy Europe, the Social Platform, ETUC a llawer o sefydliadau eraill o'r fath. Mae hyn yn rhoi proffil i'n gwaith, ac mae'n ffynhonnell werthfawr o wybodaeth a dylanwad.

Oherwydd eu rôl fel Aelodau o Bwyllgor y Rhanbarthau, mae'r Cyng Bob Bright a'r Cyng Ronnie Hughes hefyd yn gynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y CEMR, sef y Cyngor Bwrdeistrefi a Rhanbarthau Ewropeaidd (y Gymdeithas Llywodraeth Leol pan-Ewropeaidd), gyda mandad o fewn cyrff penderfyniadau'r CEMR. Mae'r Cyng Bob Bright yn arbennig yn mynd i gyfarfodydd CEMR yn aml, ym Mrwsel a lleoliadau eraill ar draws yr UE. Mae CEMR yn cynrychioli 150,000 o lywodraethau lleol, o dros 40 o wledydd, ac mae cyfarfodydd CEMR yn llwyfan gwerthfawr i hyrwyddo gwaith Aelodau Cymru sydd ar Bwyllgor y Rhanbarthau a manteisio ar effaith y gwaith hwn. Gall y wybodaeth a'r arfer gorau a rennir

gan Aelodau Etholedig o bob rhan o'r UE yn y cyfarfodydd hyn, yn ei dro, hefyd, fod yn werthfawr iawn i waith yr Aelodau o Gymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau.

## 02.10. Ugeinfed pen-blwydd Pwyllgor y Rhanbarthau

Ym mis Rhagfyr 2013 cyflwynodd y ddirprwyaeth o Gymru ymateb i ddadl ar ddyfodol Pwyllgor y Rhanbarthau, a lansiwyd gan yr Arlywydd Valcarcel (sydd ers hynny wedi dod yn ASE). Roedd yr ymateb, ar y cyd â'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, yn tynnu sylw at feysydd lle roedd dirprwyaeth Cymru yn teimlo y gallai Pwyllgor y Rhanbarthau wella ei ymgysylltiad, yn tynnu sylw yn arbennig at yr angen am gryfhau gwaith dilynol ar farn a fabwysiadwyd. Bu newid yn y flaenoriaeth o dan fandad newydd Pwyllgor y Rhanbarthau ar yr agwedd hon o'r gwaith y Pwyllgor, a chaiff groeso mawr gan ddirprwyaeth Cymru.

## 02.11. Siarad mewn cynadleddau

Mae aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau wedi siarad mewn nifer o gynadleddau ym Mrwsel a rhannau eraill o'r UE.

Dyma rai enghreifftiau:

- Roedd Rhodri Glyn yn gadeirydd ac yn aelod o'r panel (ynghyd ag Aelodau o Senedd Ewrop, swyddogion o Fanc Buddsoddi Ewrop a'r Comisiwn Ewropeaidd) yn ystod Wythnos Diwrnodau Agored y Rhanbarthau yn 2013 a 2014. Dyma'r prif ddigwyddiad i awdurdodau a sefydliadau is-Aelod-wladwriaethau a gaiff ei gynnal ym Mrwsel bob mis Hydref.
- Siaradodd Rhodri Glyn mewn cynhadledd ym Mrwsel ar ddatganoli cyllidol a llywodraethu economaidd (24 Mehefin, 2015)
- Cadeiriodd Mick Antoniw AC sesiwn panel mewn cynhadledd yr UE ar asbestos ym Mrwsel (24 Mehefin, 2015)
- Roedd Rhodri Glyn yn aelod o'r panel Cyngor Ymchwil ar y Cyd (JRC) seminar ymchwil COST ar ynni adnewyddadwy ym Mrwsel (24 Tachwedd 2015). Roedd tri siaradwr arall o Gymru yn y digwyddiad hwn hefyd (Llywodraeth Cymru a dau academydd).



**Aelodau Cymreig Pwyllgor y Rhanbarthau a chyn-Lywydd Pwyllgor y Rhanbarthau, Ramon Luis Valcárce**

Hefyd, caiff aelodau Cymru o Bwyllgor y Rhanbarthau gais yn rheolaidd i siarad mewn cynadleddau'r UE yng Nghymru. Er enghraifft: Digwyddiadau blynyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar faterion yr UE (ee 'Rhoi grym i gymunedau yn Rhaglenni 2014-2020 yr UE' yn 2012, 'O Dlodi i Ffyniant: sicrhau newid drwy arian yr UE 2014-2020' yn 2013 a 'Ailfeddwl gwasanaethau cyhoeddus ar draws yr UE , addasu i galedi ariannol' yn 2014.


EUROPEAN UNION
Committee of the Regions
Digital Agenda
for Europe
The role of regions and cities
Cities supporting
2020
strategy
Robert Bright
Helen Koepman
23
22

# 03.Argymhellion

Bydd 2016 (ac efallai 2017) yn flwyddyn arwyddocaol i Gymru, gydag etholiad y Cynulliad a'r ddadl ynghylch dyfodol y DU a Chymru yn yr UE.

Byddem yn croesawu penderfyniad gan y Cynulliad, cyn yr etholiad ac wedi'i ailddatgan yn dilyn yr etholiad, yn rhoi cefnogaeth ddiamwys i barhau ag aelodaeth y DU a Chymru yn yr UE.

## 03.1. Argymhelliad 1:

**Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn mabwysiadu penderfyniad cyn diwedd y Cynulliad presennol ac ar ddechrau'r Pumed Cynulliad yn datgan ei gefnogaeth i barhâd aelodaeth y DU (a Chymru) o'r UE**

Mae dirprwyaeth Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau yn croesawu'r ymgysylltiad cadarnhaol sydd ganddo â Chynulliad Cenedlaethol Cymru a'i Bwyllgorau. Mae'r gwahoddiad blynyddol gan y Llywydd, y Fonesig Rosemary Butler AC, i gymryd rhan mewn cyfarfod gyda Chadeiryddion y Pwyllgorau ac Aelodau Cymru o Senedd Ewrop yn arbennig o ddefnyddiol.

Rydym yn edrych ymlaen at weld hyn yn parhau o dan y Pumed Cynulliad. Pe bai'n bosibl trefnu cyfarfod o'r fath yn fwy rheolaidd (ee ddwywaith y flwyddyn neu hyd yn oed unwaith y tymor) mae hyn yn rhywbeth y byddem yn ei gefnogi.

Un awgrym fyddai trefnu cynhadledd flynyddol yn yr hydref, yn dilyn cyhoeddi Rhaglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd, lle y gallai'r Llywydd, Cadeiryddion Pwyllgorau, Aelodau Cymru o Senedd Ewrop ac aelodau o Bwyllgor y Rhanbarthau, ynghyd â Gweinidogion perthnasol Llywodraeth Cymru drafod blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn ogystal ag adolygu / asesu ymgysylltiad Cymru ym materion yr UE yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Gallai cynhadledd o'r fath fod yn ddefnyddiol i fesur a chanolbwyntio ymgysylltiad yr UE.

## 03.2. Argymhelliad 2:

**Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru yn trefnu cynhadledd flynyddol yr UE i adolygu ymgysylltiad yn yr UE a chanfod blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Byddai'r digwyddiad hwn yn dwyn ynghyd ASEau Cymru, Cadeiryddion y Cynulliad, Gweinidogion perthnasol, cynrychiolwyr Pwyllgor y Rhanbarthau a rhanddeiliaid yng Nghymru**

Rydym yn cytuno â'r adroddiadau gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Menter a Busnes a oedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i lunio strategaeth ddiwygiedig yr UE . Mae'r strategaeth bresennol wedi dyddio ac nid yw wedi darparu digon o gyfeiriad strategol i ymgysylltu Cymru â materion yr UE. Mae angen i strategaeth y dyfodol gael mwy o ffocws, gydag amcanion a thargedau clir, a chael ei mabwysiadwyd drwy ymgynghoriad cyhoeddus.

Rhaid i gyfathrebu fod yn elfen bwysig o strategaeth yr UE yn y dyfodol. Mae diffyg dealltwriaeth a diffyg gwybodaeth ynghylch sut mae Cymru'n ymgysylltu â'r UE. Mae

refferendwm yr UE yn cynnig cyfle i ymdrin â hyn, gan adeiladu ar y mentrau y mae Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, wedi bod yn eu hyrwyddo dros y ddwy flynedd diwethaf.

## 03.3. Argymhelliad 3:

**Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi strategaeth ddiwygiedig yr UE yn unol ag argymhellion adroddiadau'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Menter a Busnes a fabwysiadwyd yn 2014. Dylai'r strategaeth hon ar yr UE gynnwys cynllun gweithredu ar y cyfryngau / cyfathrebu gyda'r nod o gryfhau'r cyfathrebu a sut mae Cymru yn ymgysylltu â'r UE.**

Rydym yn tanlinellu pa mor bwysig a pha mor werthfawr i Gymru yw cael cynrychiolaeth gref ac effeithiol ym Mrwsel. Rydym yn cytuno â Phwyllgorau'r Cynulliad (y cyfeirir atynt uchod) yn y galw am i'r gynrychiolaeth yn Nhŷ Cymru gael ei ehangu i gynnwys busnesau, addysg bellach a buddion y trydydd sector. Mae Tŷ Cymru yn fwyaf effeithiol pan mae'n cymryd ymagwedd ragweithiol. Dylai strategaeth newydd yr UE â blaenoriaethau a ffocws clir ategu hyn. Bydd cael gweithrediadau Brwsel a sefydliadau 'cartref' Cymru i weithio gyda'i gilydd yn effeithiol yn cryfhau'r cyfraniad y mae'n ei wneud ym Mrwsel, sydd eisoes yn gryf.

## 03.4. Argymhelliad 4:

**Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Addysg Uwch Cymru yn parhau i gefnogi rôl Tŷ Cymru ym Mrwsel, gan gynnwys edrych ar sut y gall ei gynrychiolaeth gael ei ehangu i gynnwys busnes, addysg bellach a buddion y trydydd sector yn effeithiol.**

Mae cyfranogiad effeithiol ym Mhwyllgor y Rhanbarthau yn cael ei gyfyngu gan yr ymrwymiadau sydd gan yr aelodau yn ôl yng Nghymru, a'r heriau logistaidd o deithio yn ôl ac ymlaen i Frwsel.

Rydym yn croesawu dealltwriaeth grwpiau gwleidyddol a'n sefydliadau eu hunain wrth roi amser a lle i ni fynd i gyfarfodydd ym Mrwsel. Mae hyn yn gofyn am hyblygrwydd, gan gynnwys defnyddio gefeillio / paru yn y Cynulliad, ac mae'n drefniant sydd wedi gweithio'n dda rhwng y partïon. Byddai penderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i roi cydnabyddiaeth ffurfiol i ba mor bwysig yw cymryd rhan yng ngwaith Pwyllgor y Rhanbarthau a sicrhau y caiff yr aelodau gyfle i wneud hyn, yn arwydd o'r ymrwymiad hwn.

## 03.5. Argymhelliad 5:

**Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn mabwysiadu penderfyniad yn cydnabod pa mor bwysig ydyw bod aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau yn cael yr amser i gymryd rhan ym musnes Pwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel ac ar lefel yr UE, a'r angen am drefniadau gweithio hyblyg i barhau i gael eu cytuno rhwng y pleidiau gwleidyddol i hwyluso hyn.**

